**Bara'r Bywyd**

Ein Tad, am i ti yn dy ofal haelionus ofalu am bobl y cyfamod ar y daith anodd o'r Aifft trwy'r anialwch i Wlad yr Addewid, deuwn i'th addoli yn ôl dy wahoddiad.
Diolchwn i ti, Arglwydd.

Gan 'nad ar fara yn unig y bydd dyn fyw', rhoddaist 'y bara sy'n disgyn o'r nef', sef Iesu Grist, i ni bererinion yr oes hon yn ein hanialwch ac ar ein taith feunyddiol.  Dangosaist i ni Fara'r Bywyd.
Diolchwn i ti, Arglwydd.

Am i ni ddarllen yn yr efengylau i Iesu mewn lle unig fwydo'r miloedd newynog â bara wedi iddynt gael ymborth ysbrydol.
Diolchwn i ti, Arglwydd.

Am gael ei weld yn torri'r bara ar ôl yr atgyfodiad, yng nghartref Cleopas yn Emaus, wedi iddo eu porthi â Bara'r Bywyd a'u hadnewyddu fel disgyblion ofnus, galarus a gwiw, a'u gwneud yn dystion yr Atgyfodiad.  Gweddïwn ninnau am yr un profiad heddiw.
Diolchwn i ti, Arglwydd.

Am gael ei weld yn paratoi bwyd i'w ddisgyblion ar lan Môr Galilea ac yn herio ei rai annwyl i roi ail gynnig ar eu gwaith a derbyn ei orchymyn grasol i ofalu yn ddiwyd am y praidd o bob oedran.
Diolchwn i ti, Arglwydd.
Am i ni weithiau fethu adnabod y Ceidwad Iesu ar ein taith ar lwybrau bywyd beunyddiol.
Maddau i ni, a helpa ni i'w groesawu i'n cartrefi.

Am i ni fethu yn gyson, yn rhy aml o lawer, yn ein gwaith pwysig fel disgyblion Iesu.
Maddau i ni, ac anfon ni allan eto i bysgota a gofalu am dy braidd.

Maddau i ni am anghofio i Iesu ddweud, 'Rhowch chwi iddynt i'w fwyta'.  Gwna ni'n barod i rannu ein bara beunyddiol, ac wrth fwrdd y Cymun dyro i ni dderbyn y bara a'r gwin i'n cryfhau ar gyfer ein gwaith drosot yn y byd.  Yn enw Iesu, Bara'r Bywyd, derbyn ein gweddi.  Amen.